

LLYWELYN ap SEISYLL (bu farw 1023), brenin Deheubarth a Gwynedd

Enw: Llywelyn ap Seisyll

Dyddiad marw: 1023

Priod: Angharad ferch Maredudd ab Owain

Plentyn: Gruffudd ap Llywelyn

Rhiant: Prawst ferch Elisedd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: brenin Deheubarth a Gwynedd

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

Ni wyddys ddim am ei dad, eithr yn ôl rhai achau diweddar yr oedd ei fam, Prawst, yn ferch Elisedd, mab iau i [Anarawd ap Rhodri Fawr](#). Gan i Lywelyn briodi Angharad, merch [Maredudd ab Owain ap Hywel Dda](#), yr oedd ganddo hawl, o bell, i olyniaeth yn Neheubarth a Gwynedd, hawl y gellid, yn amgylchiadau'r cyfnod, ei gwneuthur yn sylwedd gan arweinydd nerthol ac uchelgeisiol. Un felly'n union oedd Llywelyn; a chan iddo orchfygu, yn 1018, y gwr a gipiasai'r deyrnas, sef Aeddan ap Blegywryd, a hefyd orchfygu Rhain, ymhonnwr o Iwerddon, yn 1022, daeth yn bennaeth yn y De. Estynnodd ei reolaeth hefyd am rai blynyddoedd dros ran fawr o Gymru - cyfnod cofiadwy yn hanes Cymru a barnu oddi wrth y cronicl. Prif hawl Llywelyn ap Seisyll i enwogrwydd, fodd bynnag, ydyw'r ffaith mai ef oedd tad [Gruffydd ap Llywelyn](#); gwnaethpwyd ei yrfa nodedig ef yn bosibl gan esiampl ei dad - yr oedd ei hawl ef i awdurdod yn seiliedig i raddau helaeth ar y cyfnod byr o benarglwyddiaeth 'de facto' Llywelyn.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1899 - 1900

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Llywelyn ap Seisyll](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q953828](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

